# CYNGOR SIR Y FFLINT
# 11 RHAGFYR 2018

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Jean Davies, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams a David Wisinger.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sian Braun, Bob Connah, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, David Evans, Veronica Gay, Andrew Holgate, Richard Lloyd, Mike Lowe, Mike Reece, Andy Williams a Arnold Woolley.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Prif Swyddog (Addysg a Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Pwyllgor.

## 67. CYFLWYNIADAU

### Theatr Clwyd
Yn fuddugol yn y categori 'Cynhyrchiad Cerddorol Gorau' yng Ngwobrau Theatr y DU 2018 ar gyfer 'The Assassination of Katie Hopkins'

Dyma'r Prif Weithredwr yn llongyfarch Tamara Harvey a Liam Evans-Ford ar y wobr a gyflwynwyd yn y seremoni ar 14 Hydref. Cafodd The Assassination of Katie Hopkins sy'n gynhyrchiad wedi torri tir newydd ei enwi fel y Cynhyrchiad Cerddorol Gorau yng Ngwobrau Theatr y DU a gynhelir yn flynyddol i ddathlu cyraeddiadau eithriadol mewn theatr ranbarthol ledled y DU. Roedd yn erbyn cystadleuaeth gadarn gydag enwebiadau eraill fel Miss Littlewood, Pieces of String a Summer Holiday.

Yn llongyfarch y tîm ar ennill y wobr llawn bri oedd y Cynghorydd Butler gan ddangos ei werthfawrogiad iddyn nhw am ailfywiogi Theatr Clwyd oedd bellach yn gartref i berfformiadau atyniadol ac yn un o gyflogwyr gorau Sir y Fflint.

Dyma'r Cynghorydd Sharps hefyd yn llongyfarch Tamara Harvey a Liam Ford-Evans am eu cyraeddiadau anhygoel ers iddyn nhw gyrraedd y Theatr sydd yn

ased i'r Cyngor a'r gymuned.  Roedd Theatr Clwyd yn rywle i fod yn falch ohono a dangosodd ei werthfawrogiad i'r holl staff.

Mae'r Prif Weithredwr yn argymell bod cyflwyniad yn cael ei wneud gan Tamara Harvey a Liam Ford-Evans ar waith y Theatr mewn cyfarfod y Cyngor Sir yn y dyfodol.

**Tîm Cynllunio**
Enillydd Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Yng Nghymru ar gyfer datblygiad The Walks, Fflint.

Dyma'r Prif Weithredwr yn llongyfarch y tîm ar ennill y wobr ac meddai mai The Walks yn Fflint oedd y safle gyntaf i'w datblygu fel rhan o Raglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor oedd yn cynnwys 92 o gartrefi newydd, fforddiadwy ac yn arbed ynni  gan y Cyngor wedi eu hadeiladu gan bartner y rhaglen, Wates Residential North.

Dyma'r Cynghorydd Bithell yn diolch i'r tîm am eu gwaith a'u llongyfarch nhw ar eu llwyddiant yn ennill y wobr uchel ei pharch.  Dywedodd bod y gwaith yn dangos sut y mae mentrau yn gallu cael eu cyflawni gyda chanlyniadau pwysig fel osgoi digartrefedd, lleihau tlodi tanwydd a gwella amodau byw.

Cytunodd y Cynghorydd Aaron Shotton a dywedodd ei fod yn dangos gwerth, arbenigedd a phroffesiynoldeb mewn gwasanaeth oedd yn aml iawn yn cael ei feirniadu.  Mae'r tîm wedi creu naws am le a chymuned ac mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Yng Nghymru er budd preswylwyr Sir y Fflint.

## 68. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018.

Yng nghofnod rhif 56 o'r Cofnodion fe ofynnodd y Cynghorydd Ellis i'w sylwadau gael eu cynnwys yng nghofnodion 23 Hydref 2018 ar gyfer y Rhybudd o Gynnig ar Brexit fel a ganlyn: "Nid oes gennym fandad preswylwyr Sir y Fflint i gefnogi galwadau am ail refferendwm".  Gofynnodd y Cynghorydd Heesom i'w sylwadau yntau am Brexit i gael eu cynnwys yn yr un cofnodion.  Byddai cyfeiriad at y diwygiadau yn cael ei gwneud i gofnodion 20 Tachwedd 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 69. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 70. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddosbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Tynnodd y Cadeirydd sylw yn arbennig at gyfarfod Anastasia Blease, merch 14 oed o Garmel oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn. Hi oedd yr unig aelod o Dîm Pêl-fasged gyda Chadair Olwyn Prydain Fawr o dan 24 oed oedd yn dod o Gymru ac roedd y Cadeirydd yn ei llongyfarch am hynny.

**71. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**72. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

**73. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**74. RHYBUDD O GYNNIG**

Ni dderbyniwyd dim.

**75. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2019/20 - RHAGOLWG WEDI'I DDIWEDDARU A PHROSES AR GYFER CAM 3 GOSOD Y GYLLIDEB**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar lafar ar y Gyllideb Cronfa'r Cyngor 2019/20 – Rhagolygon Diweddaraf a’r Broses ar gyfer Cam 3 o Osod y Gyllideb.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad oedd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- #Cefnogi’rGofyn – Sefyllfa Ymgyrchu;
- #Cefnogi’rGofyn – Treth y Cyngor;
- #Cefnogi’rGofyn – Dadl Gyhoeddus;
- Diweddariad ar y Cyhoeddiadau Ariannu Cenedlaethol Diweddar;
- Cyhoeddiadau Setliad dros dro;
- Cyhoeddiadau’r Prif Weinidog;
- Rhagolwg o’r Gyllideb wedi’i diweddaru ar gyfer 2019/20;
- Treth y Cyngor – Amcanion presennol;
- Cyllidebau ysgol – Tâl athrawon;
- Gwybodaeth ychwanegol;
- #Cefnogi’rGofyn – Adnewyddu;
- Llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet; a’r
- Camau nesaf ac amserlenni.

Dywedodd y Prif Weithredwr am y llythyr a ddosbarthwyd i’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru gan y Prif Weinidog a dderbyniwyd hwyrach yn y prynhawn ar ddiwrnod cyfarfod y Cyngor Sir ar 20 Tachwedd. Yn dilyn nifer o ‘ofynion’ penodol Sir y Fflint a oedd wedi eu trafod yn y llythyr hwnnw a'u cymeradwyo, derbyniodd y llythyr wedi'i ddiweddaru gan y Prif Weithredwr ac

Arweinydd y Cyngor ar ran Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (ar 28 Tachwedd) fel ymateb ffurfiol y Cyngor i ymgynghoriad ar Setliad Dros Dro. Roedd y llythyr yn cynrychioli'r ddadl yn y Cyngor ar 20 Tachwedd. Copïau o'r ddau lythyr wedi'u darparu i'r holl Aelodau.

Mynegai'r llythyr i Ysgrifenyddion y Cabinet fod y Cyngor yn credu bod Llywodraeth Cymru (LlC) gyda digon o hyblygrwydd ariannol i wella'r Setliad ymhellach gan alw am Setliad Terfynol wedi'i wella a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar 19 Rhagfyr. Eglurodd y llythyr hefyd os na fyddai gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i'r Setliad yna efallai y byddai'n rhaid i Sir y Fflint fabwysiadu cynnydd o fwy na 9% yn Nhreth y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2019/20. Gwnaed gais ffurfiol i wella'r Setliad lle byddai Sir y Fflint yn elwa hyd at o leiaf £2m o gyllid refeniw.

Fe eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fuddion y cyhoeddiadau Setliad Dros Dro a grantiau ychwanegol i'r Cyngor. Darparodd fanylion hefyd ar sut y byddai cyhoeddiadau'r Prif Weinidog yn elwa Sir y Fflint yn 2018/19 a 2019/20.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr heb unrhyw gyhoeddiadau pellach y byddai'r bwlch ar ôl yn y gyllideb o £3.148m, yn dilyn rhagolwg diweddar ar gyfer 2019/20 dal angen cynnydd cyffredinol yn Nhreth y Cyngor o tua 9.3% Mae'r cynnydd terfynol yn Ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru dal angen ei gadarnhau a byddai'n cael ei ychwanegu i ofyniad y Cyngor. Yn seiliedig ar gynnydd ardoll dros dro o £0.420m, byddai angen cynnydd pellach o oddeutu 0.5% ar Dreth y Cyngor.

Fe eglurodd y sefyllfa ar dâl athrawon ac fe ddywedodd bod y cyhoeddiad diweddar yn galluogi'r Cyngor i gwrdd â'r sefyllfa leiaf posib o ddarparu codiad i gwrdd â'r dyfarniad cyflog. Roedd disgwyl cyllid ychwanegol trwy grant penodol ar gyfer 2018/19 a fyddai'n golygu y byddai ysgolion yn cyfrannu at gostau ychwanegol wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei wneud i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 13 Rhagfyr ac i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr. Gofynnodd y Prif Weithredwr i Aelodau barhau i gefnogi'r ymgyrch #Cefnogi'rGofyn cyn i'r Setliad Terfynol gael ei dderbyn ar 19 Rhagfyr. Unwaith y mae'r Setliad Terfynol wedi'i dderbyn, byddai'r wybodaeth yn cael ei adolygu gyda'r nod o gymeradwyo cyllideb gytbwys yn y Cyngor Sir ar 29 Ionawr 2019. Cynigodd Arweinydd y Cyngor, Aaron Shotton argymhelliad yr adroddiad gyda Dirprwy Arweinydd y Cyngor, a'r Cynghorydd Bernie Attridge yn eilio'r argymhelliad.

Meddai'r Cynghorydd Shotton fod y sefyllfa yn symud yn gyflym a bod llawer wedi digwydd ers y cyfarfod Cyngor Sir ddiwethaf ar 20 Tachwedd. Fe dalodd deyrnged a diolch i'r Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am y gwaith a wnaed gydag Arweinwyr Cynghorau. Dywedodd bod llythyr y Cyngor wedi'i anfon at Ysgrifenyddion y Cabinet yn nodi dau faes oedd yn parhau i fod yn bryder i'r Cyngor – y posibilrwydd am gynnydd 9% mewn Treth y Cyngor a bygythiadau i gyllid addysg. Roedd Sir y Fflint wedi ymrwymo i gynnal y cyllid presennol ar gyfer addysg ond nid oedd y cyllid hynny'n ddigon. Mynegodd ei werthfawrogiad i'r Prif Weinidog am ei barodrwydd i dderbyn stad Sir y Fflint a Llywodraeth Leol ac yr oedd yn gobeithio y byddai cyfle i'r Prif Weinidog newydd i edrych ar bethau

ymhellach ar gyfer yr angen am gyllid ychwanegol.  Yr ymgyrchu a fu er budd preswylwyr Sir y Fflint.  Mynegodd ei werthfawrogiad am y gwaith hwn.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, fe eglurodd y Prif Weithredwr bod y sleidiau ar gyhoeddiadau'r Prif Weinidog yn trafod yr effaith ar y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf o 2018/19 a 2019/20.

Gwnaeth y Cynghorydd Peers sylwadau ar y llythyr i Ysgrifenyddion y Cabinet lle gwnaed yn glir fod y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yn hollol anghymwys ac fe ymddangosai fod pobl yn derbyn y byddai'n rhaid cynyddu Treth y Cyngor er mwyn cau'r bwlch yn y cyllid.  Gofynnodd pa gefnogaeth oedd yn cael ei roi gan yr Aelodau Cynulliad lleol a faint o gynnydd Treth y Cyngor yr oedd awdurdodau eraill yn ei ystyried.  Eglurodd y Prif Weithredwr bod y sylw ar Dreth y Cyngor wedi ei wneud ymhob un o'r cyfathrebiadau gyda LlC a'u bod yn gwbl ymwybodol eu bod yn pasio'r cyfrifoldeb ar gyfer ariannu gwasanaethau lleol i'r trethdalwr lleol.  Ni wyddwn yn union beth oedd awdurdodau eraill yn edrych ar ei wneud ar gyfer cynyddu Treth y Cyngor gan fod y sefyllfa yn newid yn sydyn.  Fe anogodd yr holl Aelodau i gysylltu ag unrhyw un o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn LlC gan gynnwys Aelodau Cynulliad lleol a rhanbarthol.

Meddai'r Cynghorydd Patrick Heesom na allai gefnogi'r cynnydd Treth y Cyngor dros 4% a chwestiynodd y broses gyllideb a'r strategaeth a fabwysiadwyd.  Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y gyllideb wedi cael ei ystyried ym mhob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghyd â'r asesiadau risg.  Mae'r asesiadau hyn yn arddangos nad oedd siawns pellach o fewn y gwasanaethau i ddarganfod mwy o arbedion ar y fath raddfa.  Mae pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi derbyn bod, ac roedd y penderfyniad yn un ar y cyd, yn seiliedig ar gyngor proffesiynol.  Os oedd gan unrhyw Aelod unrhyw syniadau ar gyfer dod o hyd i arbedion ychwanegol yna gallent ofyn i'r tîm i edrych i mewn i hynny ar unwaith.

Cynigodd y Cynghorydd Hilary McGuill ddiwygiad bod y ddau Aelod Cynulliad lleol yn cael eu gwahodd i gyfarfod gyda'r holl Aelodau cyn 19 Rhagfyr, fel eu bod yn clywed y sefyllfa a phrofiadau'r Aelodau wyneb i wyneb.  Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Heesom.  Cynigodd y Cynghorydd Kevin Hughes ddiwygiad pellach i'r gwahoddiad gael ei ymestyn i Aelodau Cynulliad rhanbarthol hefyd; derbyniwyd hynny gan y cynigydd ac eilydd y diwygiad gwreiddiol.  Derbyniodd y Cynghorwyr Shotton ac Attridge fel cynigydd ac eilydd yr argymhelliad gwreiddiol, y diwygiad gan y Cynghorydd McGuill.

Yna fe gynigodd y Cynghorydd Attridge ddiwygiad pellach bod Aelodau Seneddol lleol hefyd yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, a eiliwyd gan y Cynghorydd Chris Bithell a derbyniwyd gan gynigydd ac eilydd y diwygiad a daeth yn benderfyniad annibynnol.  Mynegodd y Prif Weithredwr na fydd o reidrwydd yn bosib trefnu cyfarfod mewn amserlen o'r fath ac awgrymodd y byddai dechrau i ganol mis Ionawr yn fwy rhesymol.

Dywedodd y Cynghorydd Tony Sharps ei fod yn cefnogi addysg ac ni fyddai byth yn cefnogi toriad mewn cyllid i'r gwasanaeth hynny.  Gwnaeth sylwad hefyd ar y gost o symud swyddfa i Dŷ Dewi Sant yn Ewloe, a'r incwm sy'n cael ei golli ar gostau maes parcio.  Ymatebodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i'r sylw a

wnaed ynglŷn â chostau maes parcio a dywedodd os y bydden nhw'n adennill costau llawn y byddai'r costau yn cynyddu yn sylweddol. Wrth symud i Dŷ Dewi Sant, fe eglurodd y Prif Weithredwr fod nodyn cyfarwyddo yn cael ei baratoi ar gyfer yr holl Aelodau yn dangos yr arbedion a wneir o symud. Ar y sylw yn ymwneud ag addysg fe gadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cyllidebau ysgolion ddim yn cael eu lleihau o ran sefyllfa polisi yn seiliedig ar risg.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks pe bai modd rhoi ystyriaeth i ofyn i LlC os byddai'n bosib rhyddhau'r Cyngor o'r trefniadau benthyca presennol ar gyfer prynu allan y trefniadau lle byddai cyfran o rent Sir y Fflint yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a p'un ai fod modd cael gafael ar gyfraddau eraill rhatach. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Mentergarwch yn y Flwyddyn Newydd. Meddai'r Prif Swyddog (Llywodraethu) fod LlC wedi tynnu'r cap ar fenthyca felly dyma gais amserol.

Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis ei bod hi'n falch iawn o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymdeithasol a Iechyd am ei fod wedi herio'r Gweinidog yn uniongyrchol dros y 12 mis diwethaf ar ddiffygion mewn cyllid.

Wrth gasglu fe ddywedodd y Cynghorydd Shotton ei bod yn bwysig cael consensws trawsbleidiol ar y gyllideb ac fe ddywedodd ei fod yn anghytuno'n llwyr gyda sylwadau'r Cynghorydd Heesom bod y strategaeth yn anghywir. Mae naw mlynedd o galedi wedi golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa lle nad oes modd dod o hyd i unrhyw ffordd arall o wneud rhagor o arbedion. Un o'r prif nodau oedd i amddiffyn y gwasanaethau allweddol, addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac ni fyddai unrhyw strategaeth arall yn golygu y byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa or herwydd. Mae arbedion sylweddol wedi'u gwneud gyda llawer o staff yn symud i Dŷ Dewi Sant ac yn cefnogi'r sylw y gwnaeth y Cynghorydd Thomas pe bai adennill costau'n llawn fyddai'r nod ar gyfer yr incwm maes parcio yna byddai'n rhaid cynyddu'r costau ymhellach. Gofynnodd i Aelodau barhau i gefnogi'r ymgyrch #Cefnogi'rGofyn gan ei fod yntau ddim eisiau gweld gymaint o gynnydd mewn Treth y Cyngor.

Wrth gymryd y bleidlais, derbyniwyd y prif gynnig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y diweddariad ar lafar ar y rhagolwg cyllideb diweddaraf ar gyfer 2019/20 yn cael ei nodi; a

(b) Bod Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol a rhanbarthol yn cael eu gwahodd i gyfarfod gyda'r holl Gynghorwyr Sir, cyn gynted â phosib ac os yn bosib cyn 19 Rhagfyr 2018.

## 76. CYLCH GORCHWYL A SIARTER Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) Erthygl 7 Diweddaraf o'r Cyfansoddiad – Cylch Gorchwyl ac adroddiad Siarter y Pwyllgor Archwilio sydd yn cynnwys yr arfer orau.

Mae Siarter y Pwyllgor Archwilio wedi'i ddatblygu i ddogfennu rôl y Pwyllgor Archwilio o fewn Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl a Siarter y Pwyllgor Archwilio, a'r newidiadau arfaethedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 21 Tachwedd a gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad ar 29 Tachwedd yn ddarostyngedig i adolygiad o gyfansoddiad y Pwyllgor gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod nesaf.

Fel Cadeirydd o'r Pwyllgor Archwilio fe gynigodd y Cynghorydd Helen Brown yr argymhelliad.

Gofynnodd y Cynghorydd Heesom pe bai modd cynyddu nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Archwilio i 11 er mwyn cael cynrychiolaeth fwy teg. Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai hynny'n achos i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. Awgrymodd y Cynghorydd Brown y gellir ei drafod mewn Gweithgor i Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a phob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y newidiadau i Erthygl 7 fel y nodir yn atodiadau A a C yn cael eu cymeradwyo.

## 77. <u>ADOLYGIAD ETHOLIADOL SIR Y FFLINT</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad Adolygiad Etholiadau Sir y Fflint. Dyma'n diolch i'r Aelodau wnaeth fynychu gweithdy mewnol yn ddiweddar a rhoddodd fanylion am y sesiynau galw heibio wedi eu trefnu a fyddai'n dechrau'r diwrnod canlynol.

Cynigodd y Cynghorydd Attridge yr argymhelliad gyda'r Cynghorydd Bithell yn eilio hynny.

Ar y sylw a godwyd gan y Cynghorydd Dave Healey yn y gweithdy fe gadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r opsiwn a gyflwynwyd yn cael ei dynnu'n ôl gan fod ffin ward Caergwrle yn ymddangos yn anghywir ar y map a ddarparwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Meddai'r Cynghorydd Peers y dylai'r ail baragraff yn y crynodeb gweithredol ddarllen fel hyn "mae hyn yn golygu bod gyda'r un gymhareb ym mhob ward etholiadol", nid nifer yr etholwyr. Dywedodd yn y gweithdy mai awgrymiadau swyddog yn unig a gafwyd ar gyfer wardiau gyda 26% neu uwch, ac nid oedd gwybodaeth ar gael am amrywiant. Gofynnodd hefyd a oedd Aelodau yn gallu cael mynediad i gofrestrau wardiau cyffiniol. Meddai'r Prif Weithredwr y gellir cyflwyno'r rhain yn y sesiynau galw heibio. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod dau dabl ar gael yn y gweithdy, un ar gyfer sylwadau gan Aelodau a'r ail yn awgrymiadau swyddog yn seiliedig ar ardaloedd coch ac oren.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nodi'r wybodaeth a wnaed ar yr adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir y Fflint.

## 78. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2017/18

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017/18 oedd yn darparu'r Cyngor gyda'r sicrwydd bod y swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn cyflawni ei rôl cyfansoddiadol.

Fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd o Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, cynigodd y Cynghorydd Rita Johnson yr argymhelliad gyda'r Cynghorydd Marion Bateman yn eilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017/18.

## 79. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac 8 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.05 pm)

..................................................

**Cadeirydd**